


PERTHYN

Rhagfyr 2022 / Ionawr 2023

312



Mae 'na alw am gast drama'r geni
drwy'r flwyddyn i weithio yn gudd,
am fod gwaith y Nadolig yn anodd,
yn ormod o waith i un dydd.

MH

Gair gan y Gweinidog



Wn i ddim os ydach chi'n bobl sy'n rhamanteiddio'r gorffennol. Ar y naill law tydw i ddim, ond ar y llaw arall mae amser yn achosi i mi anwylo rhai profiadau yn fwy nag eraill. Fe ges fy magu ym Mhentreuchaf, taffiad carreg o Bwllheli, nid yn y pentref ond hanner milltir oddi yno ym Mhenprys, ardal wledig gyda rhesiad o chwech o dai cyngor ac ychydig ffermydd. Fel llawer i un arall fe ges blentyndod delfrydol wedi ei lenwi gyda phlant, caeau agored ac anturiaethau. Yr unig gwmwl tywyll oedd marwolaeth fy nhad, ond fel plentyn pum mlwydd oed roeddwn yn ddall i'r heriau emosynol a materol oedd yn

wynebu mam. Bellach dwi'n ymwybodol o'r heriau a hynny trwy ddarllen ei dyddiaduron. Pethau pob dydd, o lanhau y llofftydd a manylion diwrnod golchi, digwyddiadau teuluol a chymunedol ond hefyd pethau dwysach.

Byddai canol Tachwedd ymlaen yn llawn sôn am ddarpariaethau'r Nadolig, o brynu anrhegion i archebu danteithion a'r cyfan yn adlewyrchu aberth a meddwlgarwch. Yn ystod ei blynnyddoedd olaf byddai'n edrych nôl ar y dyddiau hynny gan rannu'r pryder nad oedd wedi rhoi digon i ni a ninnau'n ateb wastad gyda'r geiriau, "mam, mi roesoeh bopeth!"

Nadoligau i'w cofio oedd y Nadoligau hynny, ac wrth i fywyd fynd yn ei flaen a ninnau'n mynd yn hŷn, gweithred naturiol yw dyheu am symylrwydd dathliadau ein plentyndod. Tân glo oedd ar yr aelwyd a dau bopty wrth ei ochr, un yn dal sanau a'r llall yn oer trwy'r flwyddyn. Gan nad oedd yn bosibl i'r twrci goginio ym mhopty bach y gegin, byddai mam yn gwthio rhyw fath o fachyn fydda'n caniatau i'r tân gynhesu'r popty a byddai'r twrci'n coginio trwy'r nos. Fel canlyniad byddai'r holl dŷ yn llawn arogleuon hyfryd, ac felly'r atgofion am foreau Nadolig, deffro i'r arogleuon hynny a theimlo bod y dathliadau ar ddechrau.

Gyda throad amser, rwy'n dyheu am y blynyddoedd pryd yr oedd bywyd yn symlach a'r dathliadau efallai yn fwy ystyrion ac arbennig. Y dyhead, yn arbennig yr adeg yma o'r flwyddyn, i ddychwelyd i fywyd lle'r oedd profiadau yn fwy cyfyng ac felly'n fwy gwerthfawr.

Hawdd dyheu am y blynyddoedd hynny a cholli golwg ar y ddealltwriaeth o ryfeddod y presennol, gyda'i brofiadau a'i gyfleon, ac i bobl ffydd, y ddealltwriaeth o wahoddiad cyfoethog Duw yng Nghrist i fyw ein bywydau heddiw. Allwn ni ddim dychwelyd i'n gorffennol ond gallwn ddysgu o'n profiadau a dal gafael yn yr hyn sy'n dda a chywir.

Mae Luc ym mhenodau agoriadol ei efengyl yn gosod stori'r geni mewn cyd-destun hanesyddol, gwleidyddol, crefyddol a demograffaid, i danlinellu bod y digwyddiad yn un cig a gwaed, ond ar yr un pryd, yn dragwyddol. Nid stori wedi ei chyfyngu i amser, fel yr ydan ni'n cyfyngu digwyddiadau bywyd i amser, ond fel rhywbeth sy'n digwydd heddiw, Duw yn datguddio'i hun i'r byd ym mherson Crist a'r gwahoddiad i fywyd newydd wrth i ni ei ddilyn. Gyda'r ddealltwriaeth yna mae pob Nadolig yn troi'n ddathliad gwir ac ystyrion ac felly'n destun llawenydd a gobaith mewn byd sy'n llawn dioddefaint a rhwygiadau. Oedd, mi roedd Nadoligau plentyndod yn ddathliadau arbennig a diolch am yr atgofion, ond yr un yw'r neges - neges y mae Ioan yn ei grynhoi yn y geiriau cyfoethog, cyfarwydd -

'Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebdo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.' Yr alwad i gredu hynny ac i fyw y goleuni mewn gair ac mewn gweithred.

Bendith gyfoethog y Nadolig cyntaf i chi i gyd a boed i gariad tragwyddol Duw ein harwain fel unigolion ac eglwys wrth i ni wynebu ein dyfodol mewn ffydd ac mewn gobaith.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Eifion.

Newyddion

Cofion a dymuniadau gorau

i Mary Jones Morris a Megan Morris a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion hefyd at ein aelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

Bedydd

Ar fore Sul, Tachwedd 20fed bedyddiwyd Bob Ifan mab i Aled a Heledd Morgan, a brawd i Moc Ifan. Dymunwn pob bendith i'r teulu.

Dymunwn yn dda i Meirion Morgan ar ei ymddeoliad fel gofalwr yn Yr Ysgol Gymraeg. Roedd yn fawr ei barch gan y staff, y plant a'r rhieni.

Llongyfarchiadau i Jeremy a Mari Turner ar enedigaeth eu hwyres, Anwen - merch i Tomi a Cerys, a chwaer i Dyfan.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Richard Rowlands a'i chwaer Buddug ar farwolaeth eu modryb, sef Mrs Alice Morgan, Caerdydd, a gynt o Llandre. Wrth i Perthyn fynd i'r wasg, clywsom y newyddion trist am farwolaeth Elvey MacDonald. Anfonwn ein cydymdeimlad at Delyth, ac at Meleri, Camwy a Geraint a'u teuluoedd.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion ac Athrawon Ysgol Penweddig ar eu cyflwyniad ardderchog o *Sŵn y Gân* (cyfieithiad o *The Sound of Music*) Roedd nifer fawr o'n ieuencid yn rhan o'r perfformiad neu'n cynorthwyo gyda'r ochr dechnegol cefn llwyfan.

Llongyfarchiadau i'r rhai fu'n cystadlu ar lwyfan yr *Ŵyl Cerdd Dant* yn Llanfyllin gan ennill gwobrau yn yr adran cerdd dant a'r cloesio, a'r rhai hefyd fu'n canu yng nghyngerdd *Only Boys Aloud* yng Nghaerdydd.

Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Rotari Aberystwyth

Cynhaliwyd y gystadleuaeth hon yng Nghapel y Morfa ar brynhawn Sadwrn, 19 Tachwedd. Roedd y safon yn uchel iawn. Dyfarnwyd y wobr gyntaf yn yr adran lleisiol i Ioan Mabbutt, a'r wobr gyntaf yn yr adran offerynnol i Gruffydd Siôn (Llandre) ar yr ewffoniwm.

Llongyfarchiadau a phob lwc yn y rownd nesaf.

Capel Ebeneser



Cofion

Anfonwn ein cofion at Megan Morris sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod mis Hydref.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser, ac at Miss Llinos Hughes yng Nghartref Pennal View, Blaenpennal.

Gwasanaethau

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun o dan ofal ein Gweinidog, Eifion Roberts yn Ebeneser ar brynhawn Sul, Tachwedd 6ed a braf oedd gweld cynifer yn bresennol a chyfeillion wedi ymuno.

Gwasanaeth Nadolig

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig ar brynhawn Sul, Rhagfyr 18fed am 2.15.

Croeso Cynnes i Bawb

Anfonwn ein cyfarchion a dymunwn pob bendith i'n aelodau ar gyfer Gŵyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Yr Ysgol Sul

Yn ystod mis Tachwedd cyflwynwyd y stori am *Iesu'n Tawelu'r Storm* ac yna Hanes Nehemeia'n ail-adeiladu'r deml a'r muriau yn Jeriwsalem ar ôl y gaethglud i Fabilon. Dwy stori gyferbyniol o gyfnodau gwahanol ond y ddwy yn cynnig amrywiaeth o brofiadau ymarferol fel y gwelir yn y lluniau. Roedd cyfle i gynnwys themau pwysig megis gweithio gyda'n gilydd fel tîm, bod yn gefn a gofalu am ein gilydd a dal ati.

Pan orffenwyd y gwaith o adeiladu'r muriau, dathlu a moli Duw gyda'u offerynnau wnaeth Nehemeia a'r Israeliaid a dyna wnaethom ninnau wrth ganu ac ysgwyd ein siglwyr potiau iogwrt.



Iesu'n tawelu'r storm



Nehemeia yn ail-adeiladu waliau Jerwsalem



Gorymdeithio o gwmpas waliau Jerwsalem ar ôl ail-adeiladu'r waliau gyda Nehemeia yn rhoi clod i Dduw



Ar Dachwedd 20fed profiad arbennig oedd uno yng ngwasanaeth bedydd Bob ac ymuno â'r teulu a'u ffrindiau i fwynhau'r lluniaeth a baratowyd ganddynt. Diolch yn fawr, Heledd ac Aled, Móc a Bob am gael dathlu gyda chi fel teulu.

Golygyddion y mis hwn yw Sharon ac Arwel. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn CHWEFROR at rocetarwel@yahoo.com erbyn dydd Sul, 22 Ionawr, os gwelwch yn dda.

Yma o Hyd!!

(Diolch i Cennad)



Dwi wedi crio fy siâr dros yr wythnosau diwethaf yma. Blybro drwy ‘Hen Wlad fy Nhadau’, colli mwy o ddagrau dros fuddugoliaethau na cholledion bron, ac wrth gwrs mae’r dagrau’n llifo drwy ‘Yma o Hyd’. Bob tro.

Dwi’n falch o ngwlad.
Dwi’n falch o’r tîm pêl-

droed. Dwi’n rhyfeddu at eu taith ac yn falch fy mod wedi neidio ar y trênn, yn hwyr yn y dydd. Dwi’n falch dros Dafydd Iwan ac yn rhyfeddu at daith y gân, a’i daith o’n bersonol a’n taith ninnau fel cenedl, ar y cae ac oddi arno fo. Ydan, rydan ni ‘Yma o Hyd’ ac mae’r byd i gyd yn gwybod.

Mae yna hud rhyfedd i ganu torfol. Nid perffeithrwydd canu corawl ydw i’n feddwl, ond sgrechian canu, baglu canu dros eiriau anghyfarwydd, trio canu a chrio canu. Harmoneiddio’n flêr a a bloeddio canu mewn unrhyw gywair ond yr un cywir.

O ganu felly ar eich pen eich hun fe fyddai’ch ffaeleddau’n gywilyddus o amlwg i’r byd i gyd i’w gweld. Ond o sefyll mewn torf, mae pob cyfraniad yn wych a gwachul, yn toddi’n greadigaeth bersain a chyfan-gwbl wefreiddiol.



Mae’r gân yn ddeugain oed. Deugain mlynedd yn ôl roedd y Cymru yn dal wedi ei llorio gan ganlyniad pleidlais datganoli 1979, a thra roedd hi ar lawr fe ddaeth Thatcher a’i chicio’n ddirugaredd: diberfeddu’r

gweithfeydd glo, sgrapio'r gweithfeydd dur, rhoi cwotas ar laeth a gwerthu tai cyngor. Do fe roddodd y Gymdeithas a Gwynfor dolc yn y ddynes ddur, ac erbyn 1982 roedd S4C yn darlledu, a'r wlad ar ei thraed eto, wedi ysgwyd y llwch o'i llewys, sgwario'i hysgwyddau ac yn barod i ganu, er gwaethaf pawb a phopeth, rydyn ni yma o hyd!

Ond dwi wedi cael digon ar 'Yma o Hyd'. Ar ôl Cwpan y Byd mae'n bryd anghofio amdani. Ysbryd 1982 sydd iddi wedi'r cwbl. Rhyw hen deimlad o oroesi. Efallai fod o'n deimlad dewr, herfeiddiol. 'Gwna di dy waethaf, fe droia i'r foch arall, ac fe fydda i yma o hyd.' Ond mae yna gleisiau a chreithiau yn perthyn i'r gân, llygaid duon a chloffni er gwaetha'r sgwario. Siawns nad ydan ni bellach wedi goroesi. Siawns nad ydy hi'n bryd byw.



Fe fu dyrnaid ffyddlon o gefnogwyr Cymru yn dilyn eu gwlad drwy'r dyddiau duon. A dwi'n falch dros Dewi Prysor a ffyddloniaid tebyg. Fe fuon nhw mewn stadiymau gwag mewn llefydd fel Tibilisi, a ninnau'n colli (0-5) yn Nhachwedd 1996. Ac wrth gerdded drwy'r eirlaw yn chwilio am far drud a

digroeso fe ganon nhw 'Yma o Hyd'. Canu mewn llefydd lle nad oedd torf. Dwi'n falch drostyn nhw, yn ddiolchgar amdanyn nhw, a dwi'n gweld dim bai arnyn nhw os ydyn nhw'n edrych braidd yn ddilornus ar gefnogwyr tywydd teg fel fi. Mae rhain yn ddyddiau melys iawn iddyn nhw.

Ond mae yna wers i ni i gyd yn nameg Dafydd Iwan a'r tîm pêl-droed. Diolch byth am 'Yma o Hyd' ond siawns nad ydy hi'n bryd i ni newid ein cân.

'I'r Gad!' a 'Cherddwn Ymlaen'.

RAJ

Cymdeithas y Morfa

Y Gymdeithas, 24 Hydref. Cynhaliwyd cyfarfod *Diolchgarwch* y Gymdeithas ar 24 Hydref yn y festri. Cyflwynodd Lona Jones y Parchedig Gwilym Tudur, gweinidog capel Seion, Stryd y Popty, ein gŵr gwadd am y noson. Mae Gwilym yn wŷyr i'r Parch. R Tudur Jones, a fu'n weinidog yn Seion cyn iddo symud i Fangor. Mae ei dad, y Parch. Alun Tudur yn weinidog yng Nghaerdydd. Gwilym a gymerodd y rhan defosiynol i ddechrau drwy ddarllen rhan helaeth o Salm 95 a gweddio.



Cawsom anerchiad clir a chofiadwy ganddo yn seiliedig ar y salm.

Gofynnodd a ydym ni'n wir ddiolchgar i Dduw, gan mai ef yw'n creawdwr a'n braint yw gwranddo arno. Diolchodd Eifion i Gwilym am ei anerchiad gwerthfawr, cyn i bawb fynd ati i fwynhau swper ysgafn diolchgarwch a chwmniaeth difyr ein gilydd.

Cyfarfu'r Gymdeithas ar 7fed o Dachwedd a Dewi Hughes a gymerodd y rhan defosiynol. Cyflwynodd Lona, ein cadeirydd, ein siaradwr am y noson, Rhodri ap Dyfrig. Mae Rhodri yn Gomisiynydd Cynwys Ar-lein S4C ac yn arbenigwr ar y cyfryngau cymdeithasol Cymraeg. Fe'i rhestrir gan Brifysgol Aberystwyth ymhlith y 50 person mwyaf dylanwadol o fewn Addysg Uwch sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yng Nghymru. Pwnc Rhodri i'r Gymdeithas oedd Technoleg Iaith. Cyflwynodd ni i ddatblygiadau sy'n ymwneud â iaith ddigidol. Mae'r gallu i siarad â chyfrifiaduron yn cynyddu a mae'n bwysig ein bod yn



gallu defnyddio'r Gymraeg i wneud hyn. Roedd brwdfrydedd Rhodri yn amlwg. Mae'n bosib bellach i droi testun i sain a chael technoleg darllen. Mae'n bosib creu peiriant llais sydd wedi'i deilwrio i unigolyn sydd wedi colli ei lais! Pwysleisiodd pa mor hwylus yw 'Google Translate' wrth i bobl geisio cyfieithu o un iaith i'r llall. Wrth i Gwerfyl ddiolch iddo am ei gyflwyniad diddorol cytunodd fod yn rhaid i'r Gymraeg fod yn y blaen wrth ddatblygu technoleg iaith.

Cofiwch am gyfarfodydd nesa'r Gymdeithas

5 Rhagfyr: Dathlu'r Nadolig gyda Rhidian a Catherine

9 Ionawr: Cwis yng ngofal Gwynfor Jones

23 Ionawr: Noson yng nghwmni Elin Haf Gruffydd Jones



Cinio Bara Caws

Bydd y cinio Bara a Chaws nesa', er budd Cymorth Cristnogol, yn cael ei gynnal yn **Bethel**, Stryd y Popty, ar **ddydd Llun, 5 Rhagfyr**, o 12.00 o'r gloch i 1.30yp. Croeso cynnes i bawb!

Cyfarfodydd wythnos

Cymdeithas Gweddi a Choffi a Ffydd a Phaned

Mae **Cymdeithas Gweddi a Choffi** yn cyfarfod ar ddydd Mawrth yn Ffestri'r Morfa am 10.30 i fwynhau paned a sgwrs cyn ymuno yn y defosiwn am 11 o'r gloch. Pan mae siaradwyr yn ymuno o bell trefnir y cyfarfodydd ar Zoom. Yn ystod y tymor hwn ymunodd y Parch. Anna Jên Evans â ni dros Zoom i rannu ei phrofiad fel cynrychiolydd yng Nghynhadledd Cyngor Eglwysi'r Byd yn yr Almaen. Yn yr un modd, daeth Y Parch. Jenny Garrard, Caplan Rhwydwaith Ffermio Cymunedol atom i sôn am waith yr elusen sydd yn cynorthwyo a chynghori amaethwyr yn gyfrinachol ar linell gymorth. Roeddem eisoes wedi cael cwmni Catrin Griffiths ddechrau'r flwyddyn i siarad am waith Tir Dewi. Mae'r angen yn fawr a gwerthfawrogir gwaith yr elusennau hyn.

Nia a Meurig wnaeth ein harwain ddechrau Tachwedd. Cawsom ein tywys i Wlad Belg lle y treuliasant eu gwyliau gan ymweld ag orielau ac amgueddfeydd. Cafwyd cyflwyniad ganddynt o ddarluniau yr arlunydd Pieter Brueghel ar thema'r Nadolig ond gyda nodweddion arbennig ei gyfnod a'r eira ar lawr yn amryw o'r lluniau. Cysylltwyd y lluniau ar y sgrin gyda hanes diddorol, darlenniadau a gweddiâu.

Mae Astudiaethau **Ffydd a Phaned** yn parhau ar Zoom am 2 o'r gloch ar brynhawn Gwener. Yn ystod y tymor hwn mae Eifion wedi rhoi trosolwg i ni o'r Beibl - hanes y Creu, cyfnod y Brenhinoedd a'r Proffwydi, yna Bywyd yr Arglwydd Iesu yn yr Efengylau, ymlaen wedyn i gyfnod Paul a'r Epistolau gan orffen gyda'r Datguddiad cyn cyfnod yr Adfent a'r Nadolig.

Y tymor nesaf byddwn yn astudio gwerslyfr Ysgol Sul yr Oedolion - *Dehongli Bywyd Abraham gan Gareth Lloyd Jones.*

Mae bob sesiwn yn diddorol - yn cynnwys fideo, emynau a thrafodaeth. Beth am ymuno? Cewch mwy o wybodaeth gan Eifion a diolch yn fawr iddo am ei holl waith.

COFFAD: BRENDA MARJORIE GRIFFITHS

Gwyddeles oedd Brenda, wedi ei geni a'i magu ym Melffast, ac fe gadwodd ei hacen Wyddelig trwy gydol ei bywyd. Yn dilyn blynyddoedd ei haddysg elfennol dechreuodd weithio fel gwas sifil wedi ei lleoli yn yr enwog Stormont, a bu'r gwaith a'r gymdeithas yno wrth ei bodd. Roedd yn reddfod daclus a'i chartref yn adleywrchu hynny a byddai wrth ei bodd yng nghwmni ffrindiau a chymdogion. Tra'n Stormont cyfarfu â Jack, yn wreiddiol o Corris, ac yn dilyn cyfnod fel milwr gyda'r Gatrawd Gymreig, yn gweithio i adran diogelwch Llywodraeth yr Iwerddon. Tyfodd y gyfeillgarwch yn garwriaeth ac ymhlen amser priodwyd y ddau gan wneud eu catref yn y ddinas honno. Yn dilyn ymddeoliad Jack, symudodd y ddau i Gymru ac i Benparcau gan ymdoddi'n naturiol i'r gymuned. Daeth Ebeneser yn gartref ysbrydol a'u ffydlondeb yn esiampl a'r gymdeithas gynnes yno yn golygu popeth iddynt. Dirywiodd iechyd Jack a bu gofal Brenda drosto yn dyner ac yn ofalus. Yn dilyn ei farwolaeth yn 1986 symudodd i'r 'Odyn' yn Nhrefechan a dechrau gweithio gyda chwmni John Watkins, gwaith oedd wrth ei bodd, yn cyfarfod pobl ac yn creu perthnasau oes.

Roedd gwaith cydwybodol yn bwysig iddi a byddai hyn yn cael ei adleywrchu yn ei hamdden hefyd gan wirfoddoli gyda 'Gofal yr Henoed' a 'Phapur y Deillion', yn ogystal â throi ei dawn gwau yn fendith i gymaint o fabanod a phlant yn ogystal â oedolion. Byddai'n gwau capiau i fabanad bach cynamserol ym Mronglais a phlancedi fyddai'n cael eu dosbarthu trwy elusennau byd-eang.

Yn Gristion o argyhoeddiad, yn wraig gweddi, ni fyddai'n dechrau unrhyw ddiwrnod heb gyfnod syml o ddefosiwn. Bu'n aelod ffyddlon yn Ebeneser er na allai siarad Cymraeg, gan werthfawrogi'r gymdeithas sy'n cyfarfod yno ac awyrgylch oedfa gyda'i foliant a'i dawelwch. Yn ystod y cyfnod diweddar, penderfynodd fynd i gartref Cysgod y Coed, Llanilar a mawr fu'r gofal yno tuag ati.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu yn yr Iwerddon ynghyd â Margaret ei ffrind fu mor ofalus ohoni.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Ebeneser, Penparcau, ar y 25 Hydref ac wedi hynny yn Amlogfa Aberystwyth gydag Eifion yn gwasanaethu.

Gweddi

Dduw, ein cynhaliwr a rhoddwr pob bendith:
am i ni weld ôl dy gariad a'th ofal
ym mhethau syml bywyd -
yn lliwiau'r blodau,
yng nghân yr aderyn,
yng ngwres yr haul
ac yn ffresni'r glaw:
Arglwydd, diolchwn i ti.

Am dy holl ddoniau i ni:
am fywyd a'i fendithion o iechyd ac egni;
am gyfoeth y ddaear a bwyd i'n cadw'n fyw;
am gyfeillgarwch,
am gwmmi anwyliaid
ac am bob cyfle i wneud daioni:
Arglwydd, diolchwn i ti.

Am y goleuni a'r gras a ddaeth i ni yn Iesu:
am efengyl dy gariad,
am faddeuant pechodau,
am gymod â thi,
am ddoniau dy Ysbryd,
am gymdeithas dy bobl,
am foddion gras
ac am obaith gogoniant:
Arglwydd, diolchwn i ti.

Am dy fod yn cynnal a chyfoethogi ein bywyd,
cadw ni rhag pob pryder,
a gwna ni'n wastad
yn ddiolchgar.

Amen

(Elfed ap Nefydd Roberts o *Cymer fy munudau*, Gol. Aled Davies a Trefor Lewis)

SULIAU RHAGFYR

4 Rhagfyr - Eifion Roberts (gwasanaeth derbyn pobl ifanc)
11 Rhagfyr - John Roberts
18 Rhagfyr - Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid
25 Rhagfyr - Eifion Roberts

1 Ionawr - Eifion Roberts
8 Ionawr - Eifion Roberts
15 Ionawr - Eifion Roberts
22 Ionawr - Judith Morris
29 Ionawr - Rhidian Griffiths

Rhestr Blodau Rhagfyr a Ionawr

Rhagfyr 4: Jean Davies a Siân Donnelly
Rhagfyr 11: Elfed ac Elspeth Jones
Rhagfyr 18: Mary a Meirion Morgan

Ionawr 8 : Mair Jones a Carys Davies
Ionawr 15: Bethan Bryn
Ionawr 22: Ann Hill a Wendy Jones
Ionawr 29: Rhidian a Catherine Griffiths

Dathlu'r Nadolig

Bore Sul, 27 Tachwedd: **Llanllanast *Hwyl yrŴyl***

Dydd Sul, 18 Rhagfyr: **Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul**

Mae croeso i bawb wrth y crud!

Parti Nadolig ac ymweliad

Siôn Corn yn y festri ar ôl y gwasanaeth.

Dydd Sul, 25 Rhagfyr: **Gwasanaeth Teulu** am 10 o'r gloch

Gwledd y Nadolig?



A fydd gennych chi galendr adfent y Nadolig hwn fydd yn bwydo danteithion i chi yn ddyddiol? Gobeithio bod! Ond beth am droi'r syniad ar ei ben yn ogystal?

Beth am roi rhywbeth bach o'r neilltu'n ddyddiol i'w roi i'r Banc Bwyd? Bydd yr angen yn fwy eleni nac erioed.

Mae bocs wrth ddrws y Capel bob dydd Sul ond beth am wneud ymdrech arbennig fore Sul y Gwasnaeth Nadolig (18 Rhagfyr) a dod a chynnyrch y 'Calendr-Adfent-O-Chwith' gyda chi yn anrheg i ffrindiau yn y dref?

Mae 'na alw am gast drama'r geni drwy'r flwyddyn i weithio yn gudd, am fod gwaith y Nadolig yn anodd, yn ormod o waith i un dydd. MH

Croeso Cynnes?

Mae Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol ynghyd â Cytûn a sefydliadau eraill yn darparu mannau cynnes i bobl gyfarfod yn ystod y gaeaf. Mae Morlan wedi ei ddynodi fel un o'r mannau hyn ac wedi ei nodi ar fap ar wefan Ceredigion yn dangos y lleoliadau yn y sir. Bydd y Morlan ar agor bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch ac yn cynnig lle cynnes i fwynhau sgwrs, paned a chawl ac wedi dechrau ar Dachwedd 23ain. Mae gwahoddiad cynnes i chi ddod yno, neu i groesawu a helpu.

Gobeithir trefnu rhestr o wirfoddolwyr. Os ydych yn barod i wirfoddoli a wnewch gysylltu gydag Eifion neu Eleri os gwelwch yn dda.

